# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 15 TACHWEDD 2017 |
| **AMSER** | 7.00yh |
| **LLEOLIAD** | **Ysgol RHOSGADFAN** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Cadeirwyd y Cyfarfod gan Michelle Williams yn sgil absenoldeb y Cadeirydd Nerys Evans. Yn bresennol roedd Cyng Aeron M Jones, Tom Ellis, Gwilym Ll Williams, Gwilym V Thomas, Elin Evans, Rhys Owen, Caryl E Lewis (Clerc). |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Nerys Evans, Jason Hunt.<br><br>Nid oedd Neal Williams yn bresennol. |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>**C17/1011/24/LL** Safle Fron Deg, Rhosgadfan – Cais llawn i godi 4 ty deulawr newydd i gymryd lle 4 byngalo fel a ganiatawyd yn flaenorol.<br><br>AMJ – Datgan buddiant yn y cais cynllunio gan ei fod eisioes wedi gwrthwynebu fel Aelod Lleol. |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 18 Hydref 2017 a materion yn codi**<br>Derbyniwyd fel cofnod cywir, cynnigwyd gan GVT ac eilwyd gan MW. |
| 5. | **Materion Misol:**<br><br>a) Sedd Wag Rhosgadfan – Cyfethol<br>Cafwyd 2 gais am y sedd wag:<br>John Griffith, Hafoty, Pen y Bryn<br>Peter Roberts, 10 y Dreflan, Rhosgadfan<br><br>Cynnigwyd y sedd i Peter Roberts yn unfrydol.<br><br>b) Sedd Wag Rhostryfan – Diweddariad<br>Nododd y Clerc ei bod wedi hysbysu Cyngor Gwynedd ac y bydd angen derbyn eu caniatad i allu Cyfethol i'r sedd. Gobeithir y gellir hysbysebu yn fuan ar gyfer Cyfethol i'r sedd yn cyfarfod Ionawr.<br><br>c) Meddygfa Rhostryfan<br>AMJ, Bryn ac Elwyn wedi cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd. Dim ond y Bwrdd Iechyd sydd gyda'r hawl i'w gau. Disgwyl am ganlyniad y cyfarfod. Mi allai'r Bwrdd Iechyd benderfynu peidio a cau'r feddygfa. Nododd AMJ ei fod wedi crybwyll syniad i'r practis, cynnig fod cyngor cymuned llanwnda a llandwrog yn prynu'r Feddygfa trwy fenthyciad (PLP – benthyciadau di-log) a Bwrdd Iechyd yn talu rhent a chynnig gwasanaethau eraill yna. Syniad yn unig oedd hwn a nid oedd trafodaeth arno.<br><br>d) Trydan Llanwnda<br>Dim toriadau i adrodd arnynt. Wedi penderfynu rhoi nawdd ar gyfer Neuadd Bontnewydd a Canolfan Bro Llanwnda.<br><br>e) MW - Tŷ Hen, Rhosgadfan - dwr yn llifo i'r lon, oes diweddariad am y sefyllfa? Giat yna a wedi gwneud rhywbeth fel fod dwr yn hel yno, ond ddim yn datrys y broblem. Cerrig a dwr yn parhau i redeg i'r lon. Clerc yn aros am ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. |

| | |
|---|---|
| | f) GLLW - Bryn glas, Rhostryfan - Perchennog wedi torri coed a thaflu nhw i'r ffoes, brigau yn beryglus ac mae lorïau olew yn gwrthod mynd yna gan yn difrodi cerbydau.<br>Cyngor Gwynedd wedi bod yno i glirio'r ffosydd.<br><br>g) GLLW - Tan yr Onnen, Rhos Isaf - dal heb dorri coed ar y troad.<br>Cyngor Gwynedd yn cysylltu gyda'r perchennog.<br><br>h) GVT - Datblygiad yn Ninas, safle Mount Pleasant. Eisiau adeiladu mwy o dai ac mae son y bydd y rhain gyda 'shared access' gyda'r tai sydd yno'n barod. Mae gan y trigolion bryderon am hyn, tydi'r tai presennol ddim eisiau bod yn rhan o'r stad newydd.<br>AMJ yn trafod gyda Catrin Roberts, Rheolwr Tai Fforddiadwy, Cynefin o ran y Cynllun Tai Teg. Mae AMJ yn credu na ddylai'r stad newydd ddod i mewn gyda'r tai presennol.<br><br>i) RO - Twll yn y lon o Ddinas i lawr wrth droead y bwrdd dwr a thwll mawr yn Saron hefyd. Yn gyffredinol mae cyflwr y lon yn ddifrifol, gwteri gwirioneddol angen eu glanhau, chwyn yn dod drwy rai.<br>Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn gyrru arolygwyr allan.<br><br>j) RO – Cae Peldroed – problem parcio yno pan adeg gem, angen mynd yno i weld y sefyllfa.<br>Cyngor Gwynedd wedi cynnig ymweld ar safle pan fydd gem nesaf. RO i'w hysbysu. Mae Timau lleol yn cydymffurfio ond mae problem gyda'r timau sydd yn chwarae yn eu herbyn, maent yn parcio ymhobman gan wneud y lon yn beryglus.<br><br>k) EE – problem gyrru ar hyd y lon gefn, mae problem yn waeth yn ddiweddar. Damwain newydd fod yn Tŷ'n Rhos eto, drwy'r wal ag i'r cae. Myfyrwyr Glynllifon oedd y rhain. Oes bosib codi gyda Glynllifon? Gofyn iddynt beidio gyrru ar hyd y lon waelod.<br>AMJ wedi ymweld ac aros i Cyngor Gwynedd ymweld i asesu a gweld pa gamau diogelwch pellach gallent gymryd. Clerc hefyd wedi cysylltu gyda Glynllifon a derbyn cadarnhad eu bod yn cynnal sesiwn codi ymwybyddiaeth diogelwch y ffordd i fyfyrwyr a byddent yn eu hatgoffa i beidio a gyrru ar hyd y lonydd.<br><br>l) EE - Twll mawr yn y lon yn ffrwd cae du, ar y troead.<br>Cyngor Gwynedd yn gyrru arolygwyr allan. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br><br>Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn sawl cwyn yn ystod yr wythnosau diwethaf ynglyn a cyflwr gwair y fynwent. Nodwyd nad ydy'r contractwr wedi troi fyny ar ol gofyn iddo ddod i wneud toriad ychwanegol bron i 6 wythnos yn ol. Yn y cyfamser gofynnwyd i Gwmni Gwalch ddarparu pris ar gyfer gwaith adfer y fynwent gan gynnwys trin y chwyn, gor-dyfiant a mwsog. Derbyniwyd pris o £768 gan y byddai angen defnyddio cemegau a pheiriannau arbenigol. Cytunwyd i ddefnyddio'r Cwmni. Bydd raid buddsoddi ar wella edrychiad y fynwent a'i gael yn ol i'w gyflwr blaenorol. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i adrodd arno |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>a) Adroddiad Ariannol (i'w gyflwyno yn y cyfarfod) |

Derbyniwyd yr adroddiad ariannol a chytunwyd ar y taliadau.

**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 14 Tachwedd 2017</u>**

**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen: | 29,810.71 |
| - Transfer i cyfrif siec | <u>5,000.00</u> |
| **Balans ar derfyn busnes 14 Tach 2017** | **24,810.71** |

**<u>2. Cyfrif Siec</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen: | 2,543.07 |
| + Transfer o cyfrif cadw | 5,000.00 |
| - Cyllid y Wlad Hydref | 104.80 |
| - 101042 Caryl E Lewis Cyflog Hydref | 461.05 |
| - 101041 Cyngor Gwynedd Etholiad | 357.00 |
| - 101043 Wyn Williams | <u>2,081.50</u> |
| **Balans ar derfyn busnes 14 Tach 2017:** | **4,538.72** |

**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 15 Tachwedd 2017:</u>**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Hydref | 461.05 |
| Cyllid y Wlad Hydref | 104.80 |
| Cyflog Clerc Hydref | 461.05 |
| Cyllid y Wlad Hydref | 104.80 |
| North Wales Crop Spraying | <u>276.00</u> |
| **Cyfanswm** | **1,407.70** |

b) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol
Cyfrifon wedi eu gyrru at BDO.

9. **Materion Cynllunio**

**C17/1011/24/LL Safle Fron Deg, Rhosgadfan – Cais llawn i godi 4 ty deulawr newydd i gymryd lle 4 bygalo fel a ganiatawyd yn flaenorol**.

Gwrthodwyd y cais gan Aelodau ar sail pryderon lleol y byddai tai yn blocio golau tai presennol.

AMJ – Datgan buddiant gan y bydd yn ei wrthod fel Cynghroydd Sir. Problemau mawr gyda'r safle.

**C17/1071/24/LL 2 Tai Newyddion, Rhostryfan – Dymchwel estyniad bresennol a chodi estyniad deulawr ar gyfer yr eiddo.**
Dim sylw

10. **Gohebiaeth a chylchgronnau**
Cylchgrawn Chwarae Cymru
Antur Nantlle Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – gwahoddiad

11. **Materion Cyfarfod Nesaf**
GLLW – Oes ymateb wedi ei dderbyn gan y chwarel am gerrig ar gyfer codi wal y fynwent?
EE – Eisiau diolch ir gang cymunedol am glirio y palmentydd o amgylch ardal

| | |
|---|---|
| | Llanwnda.<br>MW – Ael y Bryn (pasio dreflan fyny ag ar y troead) – wedi codi waliau a rhoi llechan a carreg ar y top, llechi yn sdicio allan ac yn beryglus ar y gornel pe bai rhywun ar feic er enghraifft.<br>MW - Cwynion am ddefaid ar y mynydd ag yn y pentref. Yn ol trigolion, mae Porwyr yn cael bwrsari, os ydynt yn aelod o'r bwrsari mae eu defaid yn cael fod ar y mynydd am ddim, os ddim yn aelod tydi'r defaid ddim fod yna. Mae angen llythyru'r Porwyr.<br><br>**Dyddiad: 17 Ionawr 2017**<br>**Lleoliad: Ysgol RHOSTRYFAN** |